# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | Dyddiad: | 24 Ionawr 2022 |
| | | Deialu Union: | 01824 712568 |
| | | e-bost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Syr / Fadam

Fe’ch gwahoddir i ddod i gyfarfod o’r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** am **10.00 am, DYDD MAWRTH, 1 CHWEFROR 2022** yn **TRWY CYFRWNG FIDEO**.

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**MYFYRDOD TAWEL**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy’n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i’w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 10)

Derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2021 (copi’n amgaeedig).

**5 CWRICWLWM CYMRU** (Tudalennau 11 - 12)

Cael cyflwyniad ar Ganllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac i drafod y posibilrwydd o ddefnyddio'r Canllawiau fel Maes Llafur Cytunedig. [Mae'r canllawiau ar gael trwy'r canlynol dolen (gweler adroddiad eitem 5 ynghlwm) ynghyd â Chrynodeb o'r Ddeddfwriaeth

**6 CEFNOGI'R AWDURDOD LLEOL I FABWYSIADU MAES LLAFUR CYTUNEDIG** (Tudalennau 13 - 14)

Ystyried y gefnogaeth a ddarperir i'r awdurdod lleol i fabwysiadu Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac argymhelliad i gynghori'r awdurdod lleol i alw Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig.

**7 CCYSAGC** (Tudalennau 15 - 16)

(a) Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas, a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2021, a

(b) Cytuno pwy fydd yn bresennol yng nghyfarfod nesaf CCYSAGC – y dyddiad i'w gadarnhau.

**8 DYDDIAD CYFARFODYDD NESAF**

- 23 Mehefin 2022
- 19 Hydref 2022

**AELODAETH**

**Cynghorwyr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

| | |
|---|---|
| Ellie Chard | Rachel Flynn |
| Tony Flynn | Cheryl Williams |
| Emrys Wynne | Meirick Davies |

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Mr. Dominic Oakes | Jennie Downes |
| Y Parch. B H Jones | Collette Owen |
| Y Parch. Martin Evans-Jones | |

**Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon**

| | |
|---|---|
| Mrs C Harmsworth | Sarah Griffiths |
| Mrs Maureen Phillips | Katie Mason |
| Leah Crimes | |

**Aelodau Cyfetholedig**

T. Ap Siôn

**COPÏAU AT:**

Bob Cynghorydd er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn via VIDEO CONFERENCE, Dydd Mercher, 20 Hydref 2021 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

**Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr Ellie Chard Tony Flynn, Emrys Wynne a Cheryl Williams

**Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Mr. Dominic Oakes, Jennie Downes a Collette Owen

**Yn Cynrychioli Cymdeithasau'r Athrawon**

Ms. Ali Ballantyne, Sarah Griffiths a Katie Mason

**HEFYD YN BRESENNOL**

Ymgynghorydd AG (PL) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW)

Libby Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**PWYNT SYLW**
Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a'r angen am gadw pellter cymdeithasol oherwydd pandemig y Coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng cynhadledd fideo ac nid oedd yn agored i'r cyhoedd .

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Parch. Brian Huw Jones, Mrs Cate Harmsworth, Leah Crimes a'r Cynghorwyr Rachel Flynn, a Meirick Lloyd Davies

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Dim.

**3 PENODI CADEIRYDD**

Enwebodd y Cynghorydd Emrys Wynne y Cynghorydd Ellie Chard i barhau fel Cadeirydd. Cytunodd holl aelodau'r Pwyllgor oedd yn bresennol yn unfrydol.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cynghorydd Ellie Chard yn parhau fel Cadeirydd CYSAG.*

## 4 PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cynghorydd Emrys Wynne Jennie Downes i fod yn Is-Gadeirydd. Cytunodd holl aelodau'r Pwyllgor oedd yn bresennol yn unfrydol.

***PENDERFYNWYD*** *fod Jennie Downes yn Is-Gadeirydd CYSAG*

## 5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2021 (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Gofynnodd yr Ymgynghorydd AG os oedd gan Aelodau'r Pwyllgor unrhyw aelodau o'r gymuned o gredoau gwahanol a oedd yn dymuno cael eu cyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol, ac i gadarnhau'r manylion gydag ef.

Eglurodd Dominic Oakes mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, dylai ffydd gael ei nodi fel ffydd a chred.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2021 fel cofnod cywir.*

## 7 AGORED CYMRU DYFARNIAD LEFEL 2 MEWN ARCHWILIO BYDOLYGON

Rhoddodd Libby Jones gyflwyniad mewn perthynas â chymhwyster newydd a fyddai'n bodloni disgwyliadau maes llafur cytunedig yng nghyfnod allweddol 4. Roedd y cyflwyniad yn cael ei rannu i aelodau'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.

Roedd y cymhwyster ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed nad oedd wedi dewis astudiaethau crefyddol ar lefel TGAU. Roedd yn hygyrch i ddysgwyr o bob gallu. Roedd y cymhwyster yn unol â'r maes llafur cytunedig presennol.

Byddai'r dull byd-olygon yn fwy cynhwysol i bob dysgwr.

Cadarnhawyd y byddai Lefel 1 o'r cymhwyster yn dda ar gyfer ysgolion arbennig a dysgwyr gydag anghenion ychwanegol. Mae wedi cael ei ddatblygu gydag anghenion dysgu ychwanegol dan sylw.

Y nod oedd dysgu am Dduw ac i ddysgu am werthoedd a moeseg grefyddol. Roedd hon yn ffordd mwy cynhwysol o weithio gyda dysgwyr.

Yn ystod y drafodaeth, cadarnhaodd aelodau'r Pwyllgor eu cymeradwyaeth a chefnogaeth i'r cymhwyster. Diolchodd pawb oedd yn bresennol i Libby Jones am ei chyflwyniad.

***PENDERFYNWYD** fod Aelodau CYSAG wedi cadarnhau eu cymeradwyaeth a chefnogaeth i'r cymhwyster.*

**8 CYNRYCHIOLAETH DDYNEIDDIOL AR CYSAG**

Yn anffodus, nid oedd Kathy Riddick, Cydlynydd Dyneiddwyr Cymru ar Ddyneiddiaeth yng Nghymru, yn gallu mynychu yn sgil salwch.

**9 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG 2020/21**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd AG yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer CYSAG Sir Ddinbych 2021/2022 (wedi'i ddosbarthu eisoes) er cymeradwyaeth a oedd yn rhoi manylion am weithgareddau CYSAG yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol yn cynnwys y cyngor a roddwyd i'r awdurdod addysg lleol a materion lleol a chenedlaethol eraill.

Atgoffodd yr Ymgynghorydd AG yr aelodau fod yr adroddiad blynyddol yn ddogfen hanesyddol a gofynnodd i'r aelodau ei chymeradwyo, yn amodol ar unrhyw gamgymeriadau i'w cywiro. Rhoddodd grynodeb o'r adroddiad a thynnodd sylw penodol at y canlynol:

- Cadarnhawyd mewn cofnodion yn y dyfodol, pan grybwyllir "ffydd" dylid nodi "ffydd a chred" a dylai "crefydd" fod yn "crefydd ac athroniaeth"
- Mabwysiadodd CYSAG Sir Ddinbych y 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 ' fel y Maes Llafur Lleol Cytunedig ar gyfer y sir yn 2008. Y fframwaith hwn yw sail y Maes Llafur cytunedig yn Sir Ddinbych o hyd.
  Bydd y Maes Llafur Cytunedig yn cael ei adolygu unwaith i'r canllawiau ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ei gyhoeddi.
- Prif swyddogaeth CYSAG yw '........cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol a'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytunedig y bydd yr awdurdod yn ei gyfeirio i'r cyngor neu fel y gwêl y cyngor yn dda'.
  Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11 (1) (a).
- Daeth Estyn ag arolygiadau safon i ben o Fedi 2020-21 i alluogi amser i ysgolion baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd yn dechrau ym Medi 2022. Hefyd yn sgil y pandemig, ni wnaeth Estyn gyflawni arolygiadau o fis Mawrth 2020.
- Cyfarfu aelodau CYSAG dair gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd.
  Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd yn electronig yn sgil y pandemig.
- Cyhoeddodd Sir Ddinbych ei newyddlen CYSAG cyntaf ar y cyd â Chonwy, a oedd yn darparu ysgolion gyda newyddion mewn perthynas ag AG/CGM ac roedd yn hynod o bwysig wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.
- Roedd aelodau'r CYSAG a'r ALI yn cael eu cynrychioli yn nhri chyfarfod CCYSAGC, ac wedi derbyn rhai o'r cyflwyniadau yr oeddent wedi'u gwneud.
  Parhaodd CYSAG i dderbyn adroddiadau gan gynrychiolwyr a fynychodd gyfarfodydd y Gymdeithas. Mae cofnodion a phapurau o CCYSAGC hefyd wedi cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd CYSAG.

Roedd yr aelodau yn hapus i dderbyn yr adroddiad fel cofnod cywir o waith CYSAG.

***PENDERFYNWYD*** *bod -*

- *Bod Adroddiad Blynyddol CYSAG Sir Ddinbych 2020/2021 yn cael ei gymeradwyo fel cofnod cywir o waith CYSAG, ac*
- *Y dylid gofyn i'r Awdurdod Lleol drefnu bod yr adroddiad yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg a'i ddosbarthu i holl ysgolion a cholegau Sir Ddinbych ac i dderbynyddion eraill fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac fel y'u dynodir yn yr adroddiad.*

**10 CCYSAGC**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd AG, Phil Lord gofnodion CCYSAGC o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021 (dosbarthwyd yn flaenorol).

***PENDERFYNWYD*** *bod aelodau CYSAG yn derbyn cofnodion cyfarfod CCYSAGC ar 16 Mehefin 2021*

**11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd:
1 Chwefror 2022
23 Mehefin 2022
19 Hydref 2022

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.20am.**

<table>
<tr><td colspan="3">Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>1 Chwefror 2022</td></tr>
<tr><td>Eitem ar y Rhaglen:</td><td>5</td><td>CWRICWLWM I GYMRU</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cefndir yr Adroddiad:</u><br><br>Mae canllawiau ar grefydd, gwerthoedd a moeseg wedi’u cyhoeddi ac ar gael drwy ddilyn y ddolen hon (gwelwch adran 5). Gwelwch hefyd y crynodeb o'r ddeddfwriaeth.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Pwrpas yr Adroddiad:</u><br><br>Derbyn cyflwyniad ar y Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>Trafod y posibilrwydd o’r ALl yn cytuno i dderbyn y canllawiau fel Maes Llafur Cytûn.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Argymhellion:</u><br><br>Derbyn y cyflwyniad.</td></tr>
</table>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<table>
<tr><td colspan="3">Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>1 Chwefror 2022</td></tr>
<tr><td>Eitem ar y Rhaglen:</td><td>6</td><td>CEFNOGI’R ALL I FABWYSIADU’R MAES LLAFUR CYTÛN</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cefndir yr Adroddiad:</u><br><br>Mae gofyn i Awdurdod Lleol Sir Ddinbych fabwysiadu Maes Llafur Cytûn. Mae Llywodraeth Cymru wedi creu canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg er mwyn i ALlau eu mabwysiadu fel Maes Llafur Cytûn.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Pwrpas yr Adroddiad:</u><br><br>Darparu cymorth i’r ALl i fabwysiadu Maes Llafur Cytûn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Argymhellion:</u><br><br>Cynghori’r ALl i gynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytûn.</td></tr>
</table>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | | |
|---|---|---|
| **Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)** | | |
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 1 Chwefror 2022 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **7** | CCYSAGC |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Mae CYSAG yn parhau i fod yn aelod o Gymdeithas CYSAGau Cymru, ac yn derbyn adroddiadau ar gyfarfodydd gan aelodau a oedd yn bresennol, copïau o'r cofnodion, ac unrhyw adroddiadau eraill gan y Gymdeithas.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Gwneud yr aelodau'n ymwybodol o ganolbwynt a phrif ddeilliannau'r cyfarfod blaenorol.

*Argymhellion:*

- Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas, a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2021
- Cytuno pwy fydd yn bresennol yng nghyfarfod nesaf CCYSAGC – y dyddiad i'w gadarnhau

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag